## ATODLEN 2

### Diwygio Is-ddeddfwriaeth nad yw ym maes Addysg

*Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007*

**22.**—(1) Diwygir Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 6(1)(c), rhodder —

"(c) yr awdurdod lleol, os yw'n wahanol i'r awdurdod ardal,

(i) sy'n cynnal unrhyw ysgol y mae'r plentyn yn ddisgybl ynddi, neu y bwriedir iddo fod yn ddisgybl ynddi, neu

(ii) sy'n gwneud trefniadau i ddarparu addysg i'r plentyn nad yw mewn ysgol yn unol ag adran 19 o Ddeddf Addysg 1996, neu

(iii) os yw'r plentyn yn ddisgybl mewn ysgol nad yw'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol, sy'n awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y lleolir yr ysgol ynddi;".

(**1**) O.S. 2007/310 (Cy.27).